cwlwm

Camau
Cynllun Dysgu Cymraeg Addysg a Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar
Learn Welsh Scheme for Early Years Education and Childcare

# Adroddiad Blynyddol 24/25

www.cwlwm.org.uk

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol — National Centre for Learning Welsh

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

Early Years Wales
Blynyddoedd Cynnar Cymru

mudiad meithrin

NDNA Cymru
National Day Nurseries Association

coram pacey cymru

## Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

Prif gyswllt: Jane O'Toole

Tŷ'r Bont, Heol yr Orsaf, Llanisien, Caerdydd

CF14 5UW

Ffôn: 02920741000

E-bost: JaneO@clybiauplantcymru.org

Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn sefydliad elusennol gwirfoddol dwyieithog (1093260) a chwmni cyfyngedig trwy warant (4296436). Wedi'i sefydlu ym mis Hydref 2001, mae'n bodoli i helpu cymunedau yng Nghymru drwy hyrwyddo, datblygu a chefnogi Clybiau Gofal Plant Allysgol o safon sy'n fforddiadwy a hygyrch.

Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn datblygu cyrsiau/gweithdai i oedolion a phlant, lle mae cyllid ar gael, i gwrdd ag anghenion hyfforddi i wella chwarae o safon mewn clybiau. Gyda'u gwybodaeth a dealltwriaeth o ddarpariaeth Gofal Plant Allysgol o ansawdd uchel, maent mewn sefyllfa dda i ddarparu hyfforddiant o safon. Maent yn ganolfan gymeradwy gyda'r Corff Dyfarnu, NCFE ar gyfer darparu cymwysterau Gwaith Chwarae ac Asesu achrededig, ac Agored Cymru ar gyfer darparu Gwaith Chwarae a Sgiliau Hanfodol Cymru achrededig.

Mae ganddynt brofiad helaeth o gyflwyno gweithdai i Weithwyr Chwarae ar amrywiaeth o bynciau o STEM, yr amgylchedd a Her Iechyd Cymru Llywodraeth Cymru y sector gwirfoddol, sef Chwarae, Dysgu, Tyfu'n Iach (a ariennir gan grant).

## Blynyddoedd Cynnar Cymru

Prif gyswllt: David Goodger

Uned 9, Centre Court, Trefforest, Rhondda Cynon Taf

CF37 5YR

Ffôn: 02920451242

E-bost: davidg@earlyyears.wales

Mae Blynyddoedd Cynnar Cymru yn sefydliad ymbarél arbenigol sy'n ymroddedig i ddatblygiad plant rhwng 0 a 5 oed, gan gefnogi'r ddarpariaeth o gyfleoedd dysgu creadigol a chwarae strwythuredig o ansawdd i blant yng Nghymru.

Pwy ydym ni:

Ers 1961 ni yw'r darparwr mwyaf o wasanaethau aelodaeth gynhwysfawr i'r sector blynyddoedd cynnar yng Nghymru. Credwn fod gan bob teulu'r hawl i gyfleoedd chwarae, addysg a gofal o ansawdd uchel i helpu eu plant  gyrraedd eu potensial.

Yr hyn rydyn ni'n ei wneud:

Mae Blynyddoedd Cynnar Cymru yn cefnogi rhieni/gofalwyr/teuluoedd a darparwyr blynyddoedd cynnar i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn ledled Cymru drwy:

- Cefnogi darparwyr blynyddoedd cynnar a'r gweithlu blynyddoedd cynnar
- Cefnogi rhieni, gofalwyr a theuluoedd i gymryd rhan mewn chwarae
- Hyrwyddo gwaith Blynyddoedd Cynnar Cymru yn eang
- Cyfrannu at weithredu polisi ar lefel genedlaethol a lleol
- Datblygu partneriaethau
- Cynnal a datblygu llywodraethu a rheolaeth y sefydliad
- Recriwtio a datblygu staff a gwirfoddolwyr
- Ceisio a rheoli cyllid i gynnal ac ehangu ein gwasanaethau

## Mudiad Meithrin

Prif gyswllt: Gwenllian Lansdown Davies

Y Ganolfan Integredig, Boulevard De Saint Brieuc, Aberystwyth

SY23 1PD

Ffôn: 01970639639

E-bost: gwenllian@meithrin.cymru

Mae Mudiad Meithrin yn sefydliad gwirfoddol. Ei nod yw rhoi cyfle i bob plentyn cyn-ysgol yng Nghymru elwa o brofiadau blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Mudiad Meithrin yn cyflogi tua 220 o staff yn genedlaethol ac mae dros 1,500 o aelodau staff yn gweithio yn ein Cylchoedd Meithrin. Mae ei Gydlynwyr Cymorth yn gweithio ar lefel leol ym mhob sir, gan gynnig arweiniad a chyngor ymarferol i'r staff, gwirfoddolwyr a rhieni ein Cylchoedd Meithrin.

Gan fod chwarae yn rhan annatod o bob agwedd ar ddatblygiad plant, mae'r profiadau a'r gweithgareddau a gynigir ar draws ein hystod o ddarpariaeth yn seiliedig ar ddysgu trwy chwarae. Rhoddir pwyslais arbennig ar ddatblygiad ieithyddol, personol, cymdeithasol ac emosiynol y plant yn ein cylchoedd.

Mudiad Meithrin yw'r prif ddarparwr gofal ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn y sector gwirfoddol.

## NDNA Cymru

Prif gyswllt: Sarah Coates

3 Tŷ Connaught, Parc Busnes Glan-yr-afon, Ffordd Benarth, Conwy

LL32 8UB

Ffôn: 01824707823

E-bost: sarah.coates@ndna.org.uk

Mae National Day Nurseries Association (NDNA) yn elusen genedlaethol a chymdeithas aelodaeth sy'n cynrychioli meithrinfeydd dydd ledled y DU, gan roi gwybodaeth, hyfforddiant a chefnogaeth iddynt, fel y gallant ddarparu'r gofal gorau posibl i blant ifanc. NDNA yw llais y sector meithrinfeydd dydd, rhan annatod o fywydau bron i filiwn o blant a'u teuluoedd. Mae NDNA yn gweithio gyda llywodraeth leol a chenedlaethol i ddatblygu amgylchedd lle gall addysg a gofal blynyddoedd cynnar o safon ffynnu. Mae NDNA yn cefnogi darparu gofal plant o ansawdd uchel, fforddiadwy a hygyrch.

Gweledigaeth yr elusen yw i bob plentyn a theulu ffynnu trwy addysg a gofal plentyndod cynnar o ansawdd uchel. Ei chenhadaeth yw arwain a grymuso'r sector fel bod meithrinfeydd a'r gweithlu blynyddoedd cynnar yn darparu addysg a gofal plentyndod cynnar cynaliadwy o ansawdd uchel. Yn ogystal, dylai pob aelod o staff sy'n gweithio gyda phlant ifanc gael mynediad at hyfforddiant ystyrlon o ansawdd uchel, gyda phob rhiant yn cael yr hawl i fod yn rhan o ofal ac addysg eu plentyn.

Mae swyddfa genedlaethol NDNA Cymru wedi'i lleoli yng Nghonwy. Mae NDNA Cymru yn cwmpasu Cymru gyfan ac mae ganddi ei hymddiriedolwyr ei hun i Gymru sy'n aelod o Fwrdd Strategol yr Elusen, y Cyngor Aelodaeth Cenedlaethol a Bwrdd Cynghori Polisi Cymru.

## PACEY Cymru

Prif gyswllt: Claire Protheroe

Ystafell 3.8 Y Maltings, Stryd Ddwyrain Tyndall Caerdydd

CF24 5EZ

Ffôn: 02920351407

E-bost: claire.protheroe@corampacey.org.uk

CORAM PACEY (a elwid gynt yn Gymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar). Ffurfiwyd yn 1977, rydym yn gymdeithas broffesiynol sy'n ymroddedig i gefnogi gweithwyr gofal plant

proffesiynol sy'n gweithio yn y cartref, gan gynnwys gwarchodwyr plant a nanis, i ddarparu gwasanaethau, gwybodaeth a chyngor o ansawdd uchel i blant, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Rydym am i bob plentyn brofi gofal plant ac addysg gynnar o ansawdd uchel, gan eu helpu i gael dyfodol disglair.

Ar draws Cymru a Lloegr rydym yn darparu hyfforddiant, cyngor arbenigol, cymorth a chefnogaeth i ymarferwyr a chefnogaeth a gwybodaeth ymarferol a diduedd i deuluoedd a gofalwyr a'r rhai sy'n eu cynghori.

**Cyflwyniad**

Mae'r adroddiad Camau hwn yn cofnodi blwyddyn o gynnydd, cydweithrediad, ac effaith Camau ar ymarfer dysgwyr, a hyn oll i gefnogi datblygiad y Gymraeg yn y sectorau gofal plant a blynyddoedd cynnar ledled Cymru. Rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025, gweithiodd partneriaid Cwlwm (Blynyddoedd Cynnar Cymru, Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Mudiad Meithrin, NDNA Cymru, a Coram PACEY Cymru) gyda'i gilydd i ddarparu, hyrwyddo a chefnogi cyrsiau Camau. Mae'r cyrsiau hunan-astudio hyn wedi'u cynllunio i helpu ymarferwyr feithrin hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau bob dydd, yn unol ag uchelgeisiau ehangach Cymraeg 2050.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r camau strategol a gymerwyd i sicrhau bod y cyrsiau yn weladwy, ac yn cefnogi ymgysylltiad dysgwyr â'r hyfforddiant, gyda'r nod cyffredin o gyrraedd 700 o gyfranogwyr. Mae'n tynnu sylw at y dulliau a ddefnyddir i gyrraedd dysgwyr, yr adnoddau creadigol a dwyieithog a ddatblygwyd, a'r gefnogaeth wedi'i theilwra a ddarperir gan Gydlynwyr y Gymraeg. Mae'n cynnwys tystebau gan ddysgwyr, data cyfranogiad, a mewnwelediadau o'r sesiynau arddangos. Mae'r adroddiad yn darparu trosolwg cynhwysfawr o gyrhaeddiad, llwyddiannau a meysydd i dyfu a datblygu'r cynllun. Yn y pen draw, mae'n adlewyrchu ymrwymiad cynyddol ar draws y sector i feithrin ymarfer dwyieithog fel ei fod yn rhan o flynyddoedd cynnar plant Cymru.

---

*"Rwy'n teimlo'n fwy hyderus nawr i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn y lleoliad a bod yn hyderus i sgwrsio gyda phlant sy'n siarad Cymraeg yn rhugl. Roedd y cwrs yn bodloni'r disgwyliadau ac rydw i nawr yn gwneud Sylfaen lefel 1."*

*Sam, The Hollies, Caerdydd.*

---

## Targedau ac Allbynnau

Mae'r adran hon yn amlinellu'r camau strategol a gymerwyd i hyrwyddo a chefnogi cyrsiau Camau fel rhan o'n hymrwymiad i ymgysylltu a chadw 700 o ddysgwyr rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025. Mae'r dull yn canolbwyntio ar ddau faes allweddol: Hyrwyddo a Chymorth Parhaus. Nod ymdrechion hyrwyddo yw cynyddu pa mor weledol mae'r cyrsiau, ymwybyddiaeth ohonynt a'r nifer sy'n cofrestru arnynt, ac i wneud hynny drwy gyfathrebu wedi'i dargedu, a rhannu straeon y dysgwyr. Ar yr un pryd, mae mecanweithiau cymorth strwythuredig yn sicrhau bod dysgwyr yn derbyn cyswllt parhaus, ystyrlon i atgyfnerthu effaith eu hyfforddiant a gwella eu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r adroddiad dilynol yn manylu ar y gweithgareddau penodol a wnaed i gyflawni'r amcanion hyn.

**Hyrwyddo**

Targed: Gweithredu cynllun i hyrwyddo bodolaeth Camau ac annog 700 o ddysgwyr i gofrestru

Gweithredoedd Allweddol:

Hyrwyddo cyrsiau Camau drwy:

- cyfryngau cymdeithasol, gwefannau, fideos, cyfarfodydd, e-fwletinau
- tystebau cadarnhaol gan ddysgwyr bob chwarter
- sesiynau arddangos byw
- pob partner i greu 4 astudiaeth achos y flwyddyn sy'n crynhoi effaith
- diweddaru deunyddiau marchnata
- cynnwys pob cwrs (Mynediad 1–3, Gwaith Chwarae 1–3, Sylfaen 1–3, Canolradd 1–2)

---

**Cymorth**

Targed: Darparu cymorth parhaus i 700 o ddysgwyr (Ebrill 2024 – Mawrth 2025)

**Gweithredoedd Allweddol:**

Cefnogaeth barhaus gan bartneriaid Cwlwm drwy wahanol sianeli (e-bost, ffôn, ar-lein, wyneb yn wyneb)

Creu 12 fideo  gweithgaredd yn dangos sut mae  defnyddio geirfa Gymraeg

**Datblygu:**

- Taflen ffeithiau gyda dolenni defnyddiol / codau QR
- 12 fideo/adnodd o amgylch  "Cynefin" i gefnogi defnydd  iaith
- Adnoddau yn benodol ar gyfer dysgwyr Sylfaen 3

Adolygu a diweddaru:

- Adnoddau Mynediad 1 (Blynyddoedd Cynnar a Chwarae)
- Adnoddau Mynediad 2
- Adnoddau Mynediad 3 (Blynyddoedd Cynnar a Chwarae)

## Gweithredu cynllun i hyrwyddo bodolaeth Camau ac annog 700 o ddysgwyr i gofrestru

Hyrwyddwyd cyrsiau Camau trwy gydol 2024/25. Defnyddiwyd nifer o blatfformau i rannu'r wybodaeth yn eang. Mae platfformau cyfryngau cymdeithasol Cwlwm, yn ogystal â rhai sefydliadau partneriaeth Cwlwm, gwefan Cwlwm, yn ogystal â gwefannau sefydliadau partner Cwlwm, wedi'u diweddaru i gynnal gwybodaeth sy'n ymwneud â Camau (gan gynnwys y broses gofrestru).

Mae gwybodaeth sy'n ymwneud â Camau wedi'i rannu'n ddigidol trwy e-byst, cylchlythyrau, ac e-fwletinau. Mae Cydlynwyr y Gymraeg wedi hwyluso sesiynau gwybodaeth i gefnogi recriwtio. Mynychodd Cwlwm nifer o gyfarfodydd awdurdod lleol a Dechrau'n Deg i hyrwyddo Camau a recriwtio dysgwyr, ar ran holl sefydliadau partner Cwlwm.

Ni osodwyd targed meintiol i bartneriaeth Cwlwm gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â nifer y dysgwr byddai'n cofrestru, ymgysylltu â neu gwblhau'r cyrsiau; fodd bynnag, gosododd cynrychiolwyr Cwlwm darged mewnol o 700 gofrestriad yn unol â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (GDCG) ac ar gyfer ei atebolrwydd ei hun.

### Crynodeb o Gyfranogiad

Cofnodwyd cyfanswm o 858 yn cofrestru ar y cyrsiau ar draws gwahanol siroedd. Daeth y nifer uchaf o gofrestriadau o leoliadau Anhysbys (279), ac yna Abertawe (80), Caerdydd (79), Casnewydd (54), a Sir Gaerfyrddin (43). Mewn cyferbyniad, nodwyd y lefelau isaf o gyfranogiad o lefydd y Tu Allan i Gymru (2), Gwynedd (3), a Bro Morgannwg (7).

O ran categorïau cwrs:

Cofrestrodd y nifer fwyaf ar y Cyrsiau Mynediad, gyda chyfanswm o 524 cofrestriad (334 yn Rhan 1, 129 yn Rhan 2, a 61 yn Rhan 3).

Yn ail roedd y Cyrsiau Chwarae lefel Mynediad, gyda 164 cofrestriad (116 yn Rhan 1, 27 yn Rhan 2, a 21 yn Rhan 3).

Gwelwyd 118 cofrestriad ar y Cyrsiau Sylfaen (59 yn Rhan 1, 33 yn Rhan 2, a 26 yn Rhan 3).

Cyrsiau Canolradd (sy'n gwrs newydd ers Tachwedd 2023) a gofnododd y cyfranogiad isaf, gyda 52 o geisiadau (31 yn Rhan 1 a 21 yn Rhan 2).

Nodwyd patrymau cyfranogiad uchel yn Chwarae Mynediad Rhan 1 yng Nghasnewydd (26 cais) ac ymgysylltiad sylweddol ar draws sawl rhan o'r cwrs yng Nghaerdydd ac Abertawe. Mae'r data hefyd yn datgelu nifer sylweddol o gofnodion nad ydynt yn perthyn i ddosbarth penodol (nodwyd fel "Anhysbys"), sy'n dynodi bylchau posibl wrth gasglu data neu wybodaeth gan gyfranogwyr.

### Trosolwg o gyfranogwyr, fesul mis

Rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025, cofnodwyd cyfanswm o 858 cofrestriad ar draws pob lefel. Roedd cyfranogiad yn amrywio o fis i fis, gyda'r gweithgarwch uchaf ym mis Ebrill 2024 a Hydref 2024 (y ddau

gyda 101), ac yna Ionawr 2025 (95) a Chwefror 2025 (93). Gwelwyd y cyfranogiad isaf ym mis Gorffennaf 2024 (43).

**Dadansoddiad yn ôl y Math o Gwrs:**

Cyrsiau lefel Mynediad (Rhannau 1–3) oedd y categori a fynychwyd fwyaf, gyda chyfanswm o 524 cofrestriad:

- Rhan 1: 334
- Rhan 2: 129
- Rhan 3: 61

Bu 164 cofrestriad ar y cyrsiau Chwarae lefel Mynediad, gyda'r presenoldeb uchaf yn ystod Rhan 1 (116).

Bu 118 cofrestriad ar y cyrsiau lefel Sylfaen:

- Rhan 1: 59
- Rhan 2: 33
- Rhan 3: 26

Bu 52 cofrestriad ar y cyrsiau lefel Canolradd, y gyfran leiaf ymhlith holl lefelau'r cwrs.

Tueddiadau nodedig:

- Parhaodd Cwrs Mynediad Rhan1 fel y cwrs a fynychwyd yn fwyaf cyson.
- Ym mis Hydref 2024, gwelwyd cyfranogiad cryf ar draws pob lefel, yn enwedig ar y cyrsiau lefel Mynediad a Chanolradd.
- Gwelodd Ionawr 2025 gynnydd sylweddol yn y nifer a fynychodd y cyrsiau Chwarae Mynediad Rhan 1 (25 ) a'r cwrs Sylfaen Rhan 1 (10).
- Yn ystod Chwefror 2025 cofnodwyd y nifer uchaf o gyfranogwyr ar y cyrsiau lefel Mynediad Rhan 2 a Rhan 3 (23 a 12, yn y drefn honno), sy'n nodi cynnydd yn y dilyniant i rannau uwch.

---

*"Mae'r cwrs Camau wedi golygu bod ein staff wedi gallu dysgu Cymraeg y gallant ei defnyddio yn y lleoliad, ar amser a chyflymder sy'n addas i ni. Rydym wedi gallu rhannu rhai caneuon Cymraeg gyda rhieni ac edrychwn ymlaen at weld mwy a mwy o staff Cymraeg yn symud ymlaen i'r cwrs Sylfaen".*

*Tracey, Sticky Fingers*

---

**Data Camau – Cofrestru fesul cwrs a fesul sir**

| Sir/Cwrs | Mynediad 1 | Mynediad 2 | Mynediad 3 | Chwarae 1 | Chwarae 2 | Chwarae 3 | Sylfaen 1 | Sylfaen 2 | Sylfaen 3 | Canolradd 1 | Canolradd 2 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ynys Môn** | 2 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 4 | 2 | 1 | 1 | **11** |
| **Blaenau Gwent** | 15 | 3 | 1 | 3 | 1 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | **25** |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 20 | 9 | 0 | 2 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **33** |
| **Caerffili** | 10 | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | **14** |
| **Caerdydd** | 28 | 13 | 6 | 2 | 2 | 3 | 6 | 3 | 1 | 9 | 6 | **79** |
| **Sir Gaerfyrddin** | 24 | 2 | 2 | 2 | 0 | 0 | 6 | 1 | 1 | 4 | 1 | **43** |
| **Ceredigion** | 4 | 3 | 3 | 2 | 0 | 0 | 1 | 3 | 7 | 1 | 0 | **24** |
| **Conwy** | 2 | 5 | 3 | 10 | 0 | 0 | 3 | 5 | 4 | 2 | 2 | **36** |
| **Sir Ddinbych** | 3 | 1 | 1 | 1 | 2 | 0 | 2 | 0 | 2 | 1 | 0 | **13** |
| **Sir y Fflint** | 1 | 3 | 3 | 2 | 0 | 0 | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 | **12** |
| **Gwynedd** | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 | **3** |
| **Merthyr Tudful** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 2 | **3** |
| **Sir Fynwy** | 7 | 4 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **13** |
| **Castell-nedd Port Talbot** | 8 | 2 | 1 | 7 | 1 | 3 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | **23** |
| **Casnewydd** | 12 | 4 | 3 | 26 | 4 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **54** |
| **Y tu allan i Gymru (DU)** | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **2** |
| **Sir Benfro** | 3 | 4 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | **13** |
| **Powys** | 3 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 | 1 | 2 | 0 | 0 | **8** |
| **Rhondda Cynon Taf** | 6 | 3 | 2 | 5 | 2 | 1 | 0 | 1 | 1 | 0 | 3 | **24** |

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Abertawe** | 44 | 10 | 4 | 10 | 7 | 2 | 2 | 0 | 0 | 1 | 0 | **80** |
| **Torfaen** | 13 | 8 | 6 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 | 1 | **30** |
| **Bro Morgannwg** | 3 | 1 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | **7** |
| **Wrecsam** | 9 | 4 | 2 | 6 | 2 | 1 | 1 | 2 | 0 | 1 | 1 | **29** |
| **Anhysbys** | 114 | 50 | 23 | 32 | 4 | 4 | 29 | 11 | 5 | 5 | 2 | **279** |
| **Cyfanswm** | **334** | **129** | **61** | **116** | **27** | **21** | **59** | **33** | **26** | **31** | **21** | **858** |

**Cyrsiau a gwblhawyd, fesul sir**

| Sir/Cwrs | Mynediad 1 | Mynediad 2 | Mynediad 3 | Chwarae 1 | Chwarae 2 | Chwarae 3 | Sylfaen 1 | Sylfaen 2 | Sylfaen 3 | Canolradd 1 | Canolradd 2 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ynys Môn** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 | 2 | 1 | 1 | **7** |
| **Blaenau Gwent** | 8 | 0 | 0 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **11** |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 5 | 4 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **11** |
| **Caerffili** | 5 | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | **8** |
| **Caerdydd** | 12 | 9 | 5 | 2 | 3 | 0 | 1 | 1 | 0 | 4 | 2 | **39** |
| **Sir Gaerfyrddin** | 15 | 1 | 2 | 0 | 0 | 0 | 2 | 1 | 1 | 2 | 1 | **25** |
| **Ceredigion** | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **2** |
| **Conwy** | 1 | 2 | 2 | 6 | 0 | 0 | 3 | 4 | 4 | 0 | 0 | **22** |
| **Sir Ddinbych** | 2 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | **5** |
| **Sir y Fflint** | 0 | 3 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **6** |
| **Gwynedd** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| **Merthyr Tudful** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 2 | **3** |
| **Sir Fynwy** | 6 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **7** |
| **Castell-nedd Port Talbot** | 3 | 2 | 0 | 7 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **13** |
| **Casnewydd** | 5 | 3 | 2 | 11 | 3 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **26** |
| **Y tu allan i Gymru (DU)** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| **Sir Benfro** | 2 | 3 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | **11** |
| **Powys** | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | **4** |
| **Rhondda Cynon Taf** | 1 | 0 | 0 | 3 | 1 | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 2 | **9** |

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Abertawe** | 13 | 6 | 2 | 3 | 1 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **27** |
| **Torfaen** | 5 | 5 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | **17** |
| **Bro Morgannwg** | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **1** |
| **Wrecsam** | 3 | 1 | 1 | 2 | 1 | 1 | 1 | 2 | | 1 | 1 | **14** |
| **Anhysbys** | 36 | 17 | 13 | 11 | 2 | 0 | 7 | 3 | 4 | 1 | 1 | **95** |
| **Cyfanswm** | **123** | **59** | **37** | **51** | **13** | **7** | **16** | **17** | **14** | **14** | **12** | **363** |

**Data Camau – Fesul cwrs a fesul mis**

| Mis - Lefel y Cwrs | Cwrs Mynediad Rhan 1 | Cwrs Mynediad Rhan 2 | Cwrs Mynediad Rhan 3 | Chwarae Mynediad Rhan 1 | Chwarae Mynediad Rhan 2 | Chwarae Mynediad Rhan 3 | Cwrs Sylfaen Rhan 1 | Cwrs Sylfaen Rhan 2 | Cwrs Sylfaen Rhan 3 | Cwrs Canolradd Rhan 1 | Cwrs Canolradd Rhan 2 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ebrill 2024 | 33 | 12 | 7 | 3 | 6 | 7 | 4 | 7 | 10 | 6 | 6 | 101 |
| Mai 2024 | 34 | 14 | 7 | 4 | 3 | 2 | 4 | 5 | 1 | | | 74 |
| Mehefin 2024 | 26 | 14 | 7 | 10 | 2 | | 4 | 4 | 1 | 2 | 2 | 72 |
| Gorffennaf 2024 | 20 | 8 | 2 | 4 | 1 | 1 | 5 | | 2 | | | 43 |
| Awst 2024 | 21 | 8 | 8 | 2 | | 1 | 6 | 4 | 1 | 2 | | 53 |
| Medi 2024 | 23 | 5 | 1 | 15 | | 2 | 3 | 4 | | 1 | 1 | 55 |
| Hydref 2024 | 42 | 13 | 4 | 19 | 2 | | 9 | 2 | | 8 | 2 | 101 |
| Tachwedd 2024 | 20 | 6 | 3 | 16 | 4 | 3 | 1 | 2 | 2 | 5 | 1 | 63 |
| Rhagfyr 2024 | 22 | | 2 | 6 | 2 | 2 | 3 | 2 | | 3 | 6 | 48 |
| Ionawr 2025 | 30 | 14 | 3 | 25 | | 1 | 10 | | 5 | 4 | 3 | 95 |
| Chwefror 2025 | 35 | 23 | 12 | 9 | 1 | 1 | 8 | 2 | 2 | | | 93 |
| Mawrth 2025 | 28 | 12 | 5 | 3 | 6 | 1 | 2 | 1 | 2 | | | 60 |
| Cyfanswm | 334 | 129 | 61 | 116 | 27 | 21 | 59 | 33 | 26 | 31 | 21 | 858 |

*"Mae'r cyrsiau Camau yn hylaw iawn, hyd yn oed os ydych chi'n gweithio'n llawn amser! Gallwch arbed eich cynnydd a pharhau ar unrhyw adeg."*

**Hyrwyddo**

**Fideo Hyrwyddo: Taith Camau**

Roedd Targed 1.2 yn canolbwyntio ar ddatblygu a rhyddhau hyrwyddiad misol sy'n cyfleu enydau a themâu allweddol y Daith Camau. Nod y fideos oedd tynnu sylw at wahanol agweddau-o'r rhaglen - megis cerrig milltir, profiadau dysgwyr, ac effeithiau ehangach ar y gymuned - gan gynnig ffordd ddeinamig a diddorol o arddangos cynnydd parhaus Camau.

Bu'r fideos yn rhedeg o Ebrill 2024 i Fawrth 2025. Dilynodd y gyfres amserlen gyson, gyda'r cynnwys yn cael ei ryddhau ar ddechrau pob mis. Bu'r dull hwn nid yn unig yn gymorth wrth gynnal ymgysylltiad rheolaidd â chynulleidfaoedd, ond hefyd i godi ymwybyddiaeth ac atgyfnerthu gwerthoedd a chanlyniadau'r rhaglen Camau. Gwelwyd y gyfres 191 o weithiau.

Cliciwch ar y ddolen i weld y fideos:

https://www.youtube.com/watch?v=68LLi07AD3Y&t=2s

**Sesiynau Arddangos Camau**

Rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025, cyflwynwyd cyfres o sesiynau Arddangos Camau ar-lein ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru. Cynlluniwyd y digwyddiadau misol hyn i dynnu sylw at effaith a chyflawniadau'r rhaglen Camau, darparu cyfle ar gyfer ymgysylltu'n lleol, a defnyddio lleisiau a straeon dysgwyr er mwyn codi ymwybyddiaeth.

Roedd pob sesiwn wedi'i drefnu ar gyfer 13:30, fel arfer ar y trydydd dydd Mercher a dydd Iau'r mis. Targedwyd gwahanol ardaloedd awdurdodau lleol bob mis. Roedd hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol i gyd-fynd â llawer o'r sesiynau, gyda phostiadau yn aml wedi'u trefnu ychydig ddyddiau ymlaen llaw i gynyddu ymwybyddiaeth o'r digwyddiadau ac annog pobl i fynychu.

**Mewnwelediadau allweddol:**

Daeth y nifer fwyaf ym Mhen-y-bont ar Ogwr (Mai 2024) gyda 34 o fynychwyr, ac yna Ceredigion (Gorffennaf 2024) ac Abertawe (Ionawr 2025).

Ni chafwyd mynychwyr mewn sawl ardal, gan gynnwys sesiynau cynnar yn Ynys Môn a Gwynedd, ac eraill fel Caerdydd, Sir Benfro a Sir y Fflint - sy'n dangos bod angen strategaethau hyrwyddo cryfach yn y rhanbarthau hyn.

Roedd sesiynau Arddangosfa Camau yn blatfform gwerthfawr ar gyfer dathlu cynnydd, cryfhau cysylltiadau, a rhannu llais dysgwyr.

| Mis | Dyddiad | Ardal ALl | Nifer y mynychwyr |
|---|---|---|---|
| Ebrill | Mer 17 Ebrill 24 | Ynys Môn | 0 |
| Ebrill | Iau 18 Ebrill 24 | Gwynedd | 0 |
| Mai | Mer 15 Mai 24 | Pen-y-bont ar Ogwr | 34 |
| Mai | Iau 16 Mai 24 | Caerffili | 0 |
| Mehefin | Mer 19 Mehefin 24 | Sir Gaerfyrddin | 3 |
| Mehefin | Iau 20 Mehefin 24 | Sir Benfro | 0 |
| Gorffennaf | Mer 17 Gor 24 | Powys | 3 |
| Gorffennaf | Iau 18 Gor 24 | Ceredigion | 7 |
| Awst | Mer 14 Awst 24 | Sir y Fflint | 0 |
| Awst | Iau 15 Awst 24 | Sir Ddinbych | 0 |
| Medi | Mer 18 Medi 24 | Merthyr Tudful | 0 |
| Medi | Iau 19 Medi 24 | Blaenau Gwent | 5 |
| Hydref | Mer 16 Hyd 24 | Torfaen | 5 |
| Hydref | Iau 17 Hyd 24 | Sir Fynwy | 1 |
| Tachwedd | Mer 20 Tach 24 | Caerdydd | 0 |
| Tachwedd | Iau 21 Tach 24 | Casnewydd | 3 |
| Rhagfyr | | | |
| Rhagfyr | | | |
| Ionawr | Mer 15 Ion 25 | Castell-nedd Port Talbot | 0 |
| Ionawr | Iau 16 Ion 25 | Abertawe | 4 |
| Chwefror | Mer 19 Chwe 25 | Wrecsam | 1 |
| Chwefror | Iau 20 Chwe 25 | Conwy | 0 |
| Mawrth | Mer 19 Maw 25 | Bro Morgannwg | 0 |
| Mawrth | Iau 20 Mawrth 25 | RHCT | 0 |

**Cymorth**

Cefnogodd Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Blynyddoedd Cynnar Cymru, Mudiad Meithrin, NDNA Cymru a Coram PACEY Cymru eu haelodau drwy gydol 2024/25. Defnyddir sesiynau cymorth rhithwir at effaith dda, gan ganiatáu i gymorth cael ei ddarparu'n hyblyg, ac felly diwallu anghenion dysgwyr yn gyflym.

Roedd y Cydlynwyr y Gymraeg yn allweddol wrth i ddysgwyr gryfhau eu sgiliau Cymraeg. Mae perthnasoedd gwaith da a chymorth pwrpasol wedi'i deilwra ar gyfer pob dysgwr a lleoliad yn sicrhau bod dysgwyr yn gallu ymgysylltu'n llwyddiannus â'r iaith mewn ffordd sy'n cefnogi eu harddull ddysgu eu hunain a'u lefel sgiliau iaith, gan sicrhau bod hyfforddiant yn dylanwadu ar ymarfer. Yn ogystal â chefnogaeth bwrpasol i leoliadau aelod, lansiwyd sawl menter i gefnogi dysgwyr Camau.

**Fideos Gweithgareddau Geirfa Gymraeg**
Fel rhan o'n menter i gefnogi dysgu Cymraeg, rydym wedi creu 12 fideo deniadol; pob un yn canolbwyntio ar weithgaredd gwahanol gan wneud defnydd o eirfa Gymraeg allweddol. Mae'r fideos yn sicrhau cyfleoedd rheolaidd i ddysgwyr ymgysylltu â'r Gymraeg trwy gyd-destunau hwyliog, ymarferol drwy gydol y flwyddyn. Mae'r gyfres i'w gweld ar https://cwlwm.org.uk/cy/gweithgareddau

**Pynciau**

Paentio wyau (79 golwg)

Beth ydw i? (52 golwg)

Baner Sêr (42 golwg)

Chwarae Hopsgots (4 golwg)

Paentio blodau (24 golwg)

Gêm gofio(13 golwg)

Gwneud crempogau (19 golwg)

Adnoddau naturiol (20 golwg)

Bwyd ceirw ecogyfeillgar https://www.youtube.com/watch?v=XndBAis9Nl8> (17 golwg)

Gwneud toes (11 golwg)

Awyr Agored (18 golwg)

Cacenni Cri (15 golwg)

Y gweithgareddau mwyaf poblogaidd oedd Paentio Wyau (79 o wylwyr), Beth ydw i? (52 o wylwyr), a Baner Sêr (42). Gwylwyd pynciau fel Paentio Blodau (24), Adnoddau Naturiol (20), a Gwneud Crempogau (19) llai o weithiau. Y fideos lleiaf poblogaidd oedd Awyr Agored (18), Bwyd Ceirw Ecogyfeillgar (17), Cacenni Cri(15), Gêm Cof (13), Gwneud Toes (11), a Chwarae Hopsgots (4).

I grynhoi, celf a chrefft fel paentio wyau a gweithgareddau ar themâu ddenodd y diddordeb mwyaf, tra bod gemau awyr agored a choginio syml yn denu llai o wylwyr.

**Dolenni Defnyddiol**

Mae'r ddogfen hon yn darparu detholiad o adnoddau ar-lein gyda'r nod o gefnogi datblygiad cynnar y Gymraeg ymhlith plant ifanc. Mae'n cynnwys platfformau addysgol, mentrau'r llywodraeth, a theclynnau ac offer rhyngweithiol sydd wedi'u cynllunio i ehangu caffaeliad iaith trwy gynnwys diddorol sy'n briodol i oedran y plant. Mae'r dolenni yn gyfeirnod gwerthfawr i rieni a gweithwyr gofal plant proffesiynol sy'n ceisio hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau plentyndod cynnar a chwarae.

https://cwlwm.org.uk/sites/www.cwlwm.org.uk/files/2024-04/Useful%20Links.pdf

**Rhestr o ddolenni a disgrifiadau:**

Cyw - Porth i blant o S4C sy'n cynnig cartwnau, gemau a chaneuon Cymraeg i ddysgwyr cynnar.

Ciw Tiwb - platfform "Clic" S4C ar gyfer cynnwys plant neu raglenni addysgol.

Digital Dialects - Cymraeg - Yn cynnig gemau Cymraeg ac offer dysgu am ddim i ddechreuwyr.

Tric a Chlic - Offeryn dysgu llythrennedd digidol a ffoneg yn seiliedig ar gwricwlwm Cymru.

Cymraeg i Blant - menter Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi rhieni a phlant ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg o oedran ifanc.

Gweithgareddau Cymraeg Lleol i Blant - Is-dudalen sy'n cynnig dosbarthiadau, digwyddiadau a sesiynau lleol ledled Cymru.

Cwlwm - Mae 'Cwlwm' yn cefnogi Llywodraeth Cymru i sicrhau bod teuluoedd ledled Cymru yn gallu cael mynediad at ofal plant fforddiadwy, o safon gan ddarparu atebion arloesol i greu cyfleoedd gofal plant a chwarae hyblyg i ddiwallu anghenion rhieni a'u teuluoedd.

https://cwlwm.org.uk/cy/iaith-gymraeg

---

*"Wedi fy helpu i feddwl mwy wrth ddefnyddio'r Gymraeg i sicrhau fy mod i'n ei defnyddio'n gywir. Roedd hefyd yn "fy atgoffa o'r pethau sylfaenol."*

*Caitlin, Gofal Plant Flourish Cymru*

---

**Fideos a Gweithgareddau Cynefin**

Datblygodd Cwlwm gyfres o 12 fideo addysgol ac adnoddau cysylltiedig i gefnogi dysgwyr Cymraeg i archwilio "Cynefin" gyda phlant — eu hymdeimlad o le, o fod yn berthyn a'u hunaniaeth — drwy gyfrwng y Gymraeg/yn ddwyieithog. Nod y fideos a'r adnoddau oedd rhannu'r Gymraeg sy'n berthnasol i gymunedau lleol a chefnogi dysgwyr i ddarganfod eu gwreiddiau, eu cymunedau a'u hunaniaethau unigryw.

Adnodd 1: Fi (Ebrill)

Adnodd 2: Fy nheulu (Mai)

Adnodd 3. Fy nghartref (Mehefin)

Adnodd 4. Fy stryd (Gorffennaf)

Adnodd 5. Fy mhentref/tref (Awst)

Adnodd 6. Fy nghymuned (Medi)

Adnodd 7. Y Siop (Hydref)

Adnodd 8. Swyddfa'r Post (Tachwedd)

Adnodd 9. Parc (Rhagfyr)

Adnodd 10. Pobl sy'n fy helpu (Ionawr).
PDF - Youtube

Adnodd 11. Ysgol (Chwefror)
PDF - Youtube

Adnodd 12. Cymru (Mawrth)

---

*"Byddwn yn bendant yn argymell y cwrs hwn, roedd gwahanol elfennau yn yr unedau, felly cedwir y dysgu'n ddiddorol ac yn hwyl. Rwyf hefyd wedi dysgu llawer o'r cwrs hwn ac wedi cynyddu fy nefnydd o'r iaith Gymraeg."*

*Samantha Condick, Clwb Y Ddraig*

---

**Tystebau ac Astudiaethau Achos**

**Llais y Dysgwyr**

"Rwy'n teimlo'n fwy hyderus nawr i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn y lleoliad a bod yn hyderus i sgwrsio gyda phlant sy'n siarad Cymraeg yn rhugl. Roedd y cwrs yn bodloni'r disgwyliadau ac rydw i nawr yn gwneud Sylfaen lefel 1."

"Mae Camau wedi caniatáu i ni ddechrau gweithio tuag at ddatblygu gweithlu dwyieithog ac mae cael cwrs hyfforddi ar gyfer ein sector yn unig wedi bod yn wych, yn ogystal â gallu cael mynediad ato pryd bynnag dymunwn. Alla i ddim aros i symud ymlaen i'r lefel nesaf."

"Mae'r cyrsiau Camau yn hylaw iawn, hyd yn oed os wyt ti'n gweithio'n llawn amser! Gelli di arbed dy gynnydd a pharhau ar unrhyw adeg."

"Wedi fy helpu i feddwl mwy wrth ddefnyddio'r Gymraeg i sicrhau fy mod i'n ei defnyddio'n gywir. Roedd hefyd yn "fy atgoffa o'r pethau sylfaenol”."

"Byddwn yn argymell y cwrs chwarae Camau oherwydd ei fod yn gyflwyniad da i ddysgu Cymraeg. Mae'r cwrs yn hawdd i'w lywio ac mae yna lawer o weithgareddau diddorol i dy helpu i atgyfnerthu'r hyn wyt ti wedi'i ddysgu. Dwi'n meddwl ei fod yn gwrs defnyddiol i'r rhai sydd eisiau dysgu Cymraeg er mwyn datblygu eu gyrfa ymhellach."

"Gellir cwblhau Camau ar dy gyflymder dy hun ac mae'n hawdd ei ddilyn. Mae staff wedi magu hyder gyda'r Gymraeg ac yn ei defnyddio mwy gyda'r plant o ddydd i ddydd."

"Mae hyfforddiant camau wedi bod o fudd ac wedi cynyddu fy hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn amlach, er enghraifft, trwy gydol y dydd ac yn ystod amseroedd bwyd. Rwyf wedi mwynhau'r cwrs yn fawr ac rwy'n edrych ymlaen at ennill mwy o wybodaeth drwy gwblhau Camau lefel 2. Mae hefyd wedi rhoi hwb i'm hyder i gael cydnabyddiaeth gan fy rheolwyr am wella fy Nghymraeg, a hefyd fy mod i wedi cael fy enwebu am Wobr."

"Am gwrs gwych i unrhyw un sy'n ddechreuwr yn y Gymraeg. Roeddwn ychydig yn nerfus ar y dechrau, ond yn fuan gwelais fod y cwrs hwn yn hawdd i'w lywio ac roedd faint o adnoddau a ddarparwyd i'ch helpu chi ar hyd y ffordd yn wych. Rwy'n sicr yn defnyddio mwy o Gymraeg yn y lleoliad ac rwy'n annog ac yn cefnogi aelodau staff newydd i wneud hynny."

"Mae'r cwrs Camau wedi golygu bod ein staff wedi gallu dysgu Cymraeg y gallant ei defnyddio yn y lleoliad, ar amser a chyflymder sy'n addas i ni. Rydym wedi gallu rhannu rhai caneuon Cymraeg gyda rhieni ac edrychwn ymlaen at weld mwy a mwy o staff Cymraeg yn symud ymlaen i'r cwrs Sylfaen."

"Rydyn ni wedi dechrau gweithio drwy'r cynllun Camau ac wedi ei gael hi'n ddefnyddiol iawn datblygu ein hymarfer Cymraeg gyda'r plant. Rydym bellach yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn fwy hyderus ac mae plant wedi dechrau ein hateb yn Gymraeg, sy'n hyfryd. Rydym nawr yn ystyried edrych ar gyrsiau Cymraeg i rieni i'w cefnogi i ddefnyddio'r Gymraeg gartref."

"Rydw i wedi gweld bod Camau yn gwrs da iawn. Mae wedi ein helpu ni i gyflwyno Cymraeg syml i'r plant ac mae wedi fy ysbrydoli i’w defnyddio hi hyd yn oed yn fwy. Mae gallu dysgu yn fy amser fy hun wedi bod yn wych wrth i mi geisio ei ffitio o gwmpas gwaith a phlant."

"Rwy'n hoffi y gelli di ei wneud yn dy amser dy hun, ac yn gallu stopio a mynd yn ôl pan fydd gennyt ti’r amser. Unwaith i ti gael mynediad i’r cwrs mae’n hawdd mynd yn ôl ato.”

"Mae'n hawdd cael mynediad at a dilyn y cwrs, ac mae gennyt ti’r gallu i dipio i mewn ac allan ohono fel y mae dy waith/bywyd yn caniatáu. Mae'r cwrs wedi gwella fy ngallu i ymgorffori'r Gymraeg yn fy mywyd bob dydd ac i ddod yn fwy hyderus wrth ei defnyddio gyda'r plant."

"Nid yw'r cwrs fel gwaith ysgol ac mae'n anelu at dy helpu di i ddod yn fwy hyderus wrth ddefnyddio geiriau a chyfarchion bob dydd, yn hytrach na dy wthio'n rhy gyflym a difetha dy hyder. Diolch i'r cwrs Camau rwy'n defnyddio llawer mwy o Gymraeg yn fy lleoliad ac yn dod yn fwy hyderus wrth ddefnyddio ymadroddion gyda'r athrawon/rhieni yn yr ysgol Gymraeg leol."

"Roedd hyn yn wych i mi gan fy mod i'n gallu gweithio drwyddo pan oedd yn gyfleus i mi. Mae’n system hawdd iawn i'w defnyddio, roeddwn i'n hoffi'r ffaith y gallwn ailymweld ag adrannau ar ôl eu cwblhau i adolygu pe bawn i wedi anghofio unrhyw beth."

"Y prif fanteision o ddilyn y cwrs hunan-astudio ar-lein yn ôl Jessica oedd ei fod “wedi helpu i wella fy iaith Gymraeg ac wedi helpu i godi fy hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg." Nododd Jessica ei bod yn well ganddi ddysgu ar-lein, ac roedd pob adnodd sydd ar gael yn y cwrs yn ddefnyddiol i'w chefnogi o ddydd i ddydd."

"Byddwn yn bendant yn argymell y cwrs hwn, roedd gwahanol elfennau yn yr unedau, a wnaeth hynny gadw'r dysgu yn ddiddorol ac yn hwyl. Rwyf hefyd wedi dysgu llawer o'r cwrs hwn ac wedi cynyddu fy nefnydd o’r iaith Gymraeg."

"Rwyf wedi cwblhau fy nghwrs Gofal Plant, Arweinyddiaeth a Rheolaeth Lefel 4 ac wedi gwneud darnau o waith ar y Gymraeg mewn lleoliadau, a’r cynllun Cymraeg 2050. Mae hyn yn fy ysbrydoli’n fwyfwy. Mae dysgu Cymraeg fel hyn yn ddechreuad gwych i mi."

"Penderfynais gofrestru i wella fy ngwybodaeth am y Gymraeg. Mae'r lluniau a'r sain mae'r cwrs yn ei ddefnyddio wedi fy helpu, gan eu bod yn gofiadwy iawn. Fel rhywun ag anabledd, mae cynnwys dulliau dysgu clywedol a gweledol yn fy nghefnogi i gadw mwy o wybodaeth. Rwyf hefyd wedi ei chael hi'n hwyl dysgu Cymraeg gyda'r cwrs hwn."

## Astudiaethau Achos

Cafodd bob partner Cwlwm y dasg o gynhyrchu pedair astudiaeth achos (h.y.un bob chwarter), yn tynnu sylw at deithiau dysgwyr drwy'r cyrsiau Camau ac yn dangos sut mae'r hyfforddiant wedi dylanwadu ar eu hymarfer.
Cynhyrchodd partneriaid Cwlwm gyfanswm o 20 astudiaeth achos, ac mae pob un ohonynt ar gael ar wefan Cwlwm: https://cwlwm.org.uk/cy/welsh-language-support/case-studies.